Gwybodaeth i Gleifion

# Syndrom Cauda Equina

## Gwasanaeth Ffisiotherapi

---

Mae gan lawer o bobl gyfuniad o boen cefn, poen yn y goes, diffyg teimlad yn y goes a gwendid. Gall y symptomau hyn beri gofid i chi ond nid oes angen sylw meddygol brys arnynt o reidrwydd.

Gall cyflwr cefn prin ond difrifol, Syndrom Cauda Equina, arwain at niwed parhaol neu anabledd a bydd angen i chi gael eich gweld gan Dîm Argyfwng Arbenigol yr Asgwrn Cefn.

### Arwyddion sy’n eich Rhybuddio am Syndrom Cauda Equina

- Colli teimlad/pinnau bach rhwng rhannau mewnol eich cluniau neu eich organau cenhedlu
- Diffrwythder yn neu o amgylch eich rectwm neu’ch pen ôl
- Teimlad gwahanol wrth ddefnyddio papur toiled i sychu'ch hun
- Anhawster cynyddol wrth geisio pasio wrin
- Anhawster cynyddol pan fyddwch chi'n ceisio atal neu reoli llif eich wrin
- Colli teimlad wrth basio wrin
- Gollwng wrin neu angen defnyddio padiau
- Ddim yn gwybod a yw’ch pledren yn llawn neu'n wag
- Methu stopio symudiad y coluddyn neu ollyngiadau
- Colli teimlad wrth basio symudiadau’r coluddyn
- Colli teimlad pan fydd y rectwm yn llawn
- Newid yn y gallu i gael codiad neu had-daflu
- Colli teimlad yn yr organau rhywiol yn ystod cyfathrach rywiol

GALLAI UNRHYW GYFUNIAD O'R RHYBUDDION UCHOD FOD YN SYMPTOMAU O SYNDROME CAUDA EQUINA.

**EWCH I’R ADRAN DAMWEINIAU AC ARGYFWNG YN SYTH I GAEL CYMORTH.**

**Ar gyfer trigolion Gwent, mae’r Adran Damweiniau ac Argyfwng yn:**

**Ysbyty Athrofaol y Faenor**
**Heol Caerllion, Llanfrechfa, Cwmbrân, NP44 8YN**

*Cydnabyddiaeth: Mae'r daflen wybodaeth hon yn cyfeirio at waith a wnaed gan Dr Susan Greenhalgh, Chris Mercer a Laura Finucane.* *©Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Bolton a Phrifysgol Canolbarth Swydd Gaerhirfryn.*

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**